

Aur Melyn – cynhyrchu galanthamin o gennin pedr ar dir uchel

Cyfansoddyn fferyllol yw galantamin sydd wedi'i gymeradwyo i drin Clefyd Alzheimer ers 1998. Mae'n bosib gwneud galantamin yn gemegol ond mae'n broses anodd a drud. Mae'n fwy cost-effeithiol cynhyrchu galantamin o'r galanthamin a geir o blanhigion, ond cyflenwadau cyfyngedig sydd ar gael ohono.

Cennin Pedr yw'r unig blanhigyn sy'n ffynhonnell o alanthamin y gellir ei dyfu'n ymarferol yng ngwledydd Prydain. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod yr heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â thyfu ar dir uchel yn ysbarduno cnwd uwch o alanthamin yn y cennin Pedr hynny a dyfir ar yr ucheldiroedd na'r rhai sy'n tyfu dan amodau'r tiroedd isel.



Mae'r prosiect hwn a ariennir gan Innovate UK yn profi dull newydd o gynhyrchu galanthamin yn seiliedig ar blannu cennin Pedr ar borfeydd ucheldir presennol, ac mae'n gydweithrediad rhwng Pwllpeiran, cwmni masnachol (Agroceitcal Products Ltd) a pheirianwyr o Brifysgol Harper Adams. Mae'r prosiect yn treialu ac yn gwerthuso

peiriannau plannu bylbiau dan wyndonnydd gwair hirsefydlog a chynaeafu glastyfiant y cennin Pedr. Mae treialon cynhyrchu yn pwysu a mesur yr effaith y mae cynnwys cennin Pedr ar borfeydd yn ei gael ar berfformiad y defaid a faint o dda byw all y tir ei gynnal. Mae canlyniadau cychwynol yn dangos nad yw presenoldeb y cennin Pedr yn effeithio ar gyfraddau twf yr ŵyn. Mae'r ymchwil hefyd yn edrych i ba raddau mae maint bylbiau, dwysedd plannu, patrymau cynaeafu a mewnbynnau gwrtaithe yn dylanwadu ar ddyfalbarhad y cennin Pedr a'r cynnyrch galanthamin a geir er mwyn datblygu canllawiau rheolaeth sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o dyfu cennin Pedr a phori da byw ar ffermydd ucheldir. Bydd yr wybodaeth gyda'i gilydd yn galluogi asesiad cyflawn i gymryd lle o hyfywedd economaidd cynhyrchu galanthamin yn y modd hwn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Mariecia Fraser

ebost – mdf@aber.ac.uk

ffôn – 01970 823081